



Powys County Council/ Cyngor Sir Powys

ADOLYGIAD O GYMUNEDAU

**ARGYMHELLION ARDAL A WNAED I'R COMISIWN FFINIAU
LLYWODRAETH LEOL I GYMRU**

Mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 26 Hydref 2006

1 Amlinelliad o'r adolygiad o gymunedau Powys

1.1 Cynhaliwyd adolygiad cyffredinol o gymunedau yn Sir Powys gan Gyngor Sir Powys. Lanswyd yr adolygiad ar 20 Medi 2005 pan gyhoeddwyd Dogfen Arfer a Pholisi gan Fwrdd Cyngor Sir Powys ac agorwyd cyfnod o dri mis pan wahoddwyd cyflwyniadau cychwynnol. Dosbarthwyd y Ddogfen Arfer a Pholisi i bob cyngor cymuned ym Mhowys, i bob Cyngorydd Cymuned a phob corff arall a fynegodd ddiddordeb. Rhoddwyd Hysbysiad Cyhoeddus o gychwyn yr adolygiad mewn tri phapur newydd sy'n gwasanaethu'r Sir, yn swyddfeydd ardal y Cyngor a llyfrgelloedd ac ar wefan y Cyngor. Roedd copïau o'r Ddogfen ar gael i unrhyw berson a wnaeth gais amdani ac roedd ar gael ar y wefan. Rhoddwyd cyflwyniad, yn cyflwyno'r adolygiad, yn nhri Chyfarfod Cyswllt Sirol y Cyngor â'r cynghorau cymuned ym mis Hydref 2005.

1.2 Ar y 28 Chwefror 2006, cyhoeddodd Bwrdd Cyngor Sir Powys ei Gynigion Drafft yn yr Adolygiad hwn, ac agorwyd cyfnod pellach o dri mis pan wahoddwyd cynrychioliadau ar y Cynigion Drafft. Unwaith eto, darparwyd y Cynigion Drafft i bob cyngor cymuned ym Mhowys, i bob Cyngorydd Cymuned ac unrhyw gorff arall a fynegodd ddiddordeb. Rhoddwyd Hysbysiad Cyhoeddus am ei gyhoeddi mewn tri phapur newydd sy'n gwasanaethu'r Sir, yn swyddfeydd ardal y Cyngor a llyfrgelloedd ac ar wefan y Cyngor. Roedd copïau o'r Cynigion Drafft ar gael i unrhyw berson a wnaeth gais amdanynt ac roeddent ar gael ar y wefan. Rhoddwyd cyflwyniad hefyd, yn cyflwyno'r Cynigion Drafft, yn nhri Chyfarfod Cyswllt Sirol y Cyngor â'r cynghorau cymuned ym mis Mawrth 2006.

1.3 Mae gan Gyngor Sir Powys ddyletswydd o dan Adrannau 55 a 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gadw'r holl gymunedau yn ei ardal o dan adolygiad at ddiben ystyried argymell i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru sefydlu cymuned newydd, diddymu cymuned neu addasu cymuned. Ar ben hynny, mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i ddarparu ar gyfer trefniadau etholiadol – trefniadau ward a niferoedd cynghorwyr – cymunedau'r ardal hon ac i gadw'r rhain o dan adolygiad.

1.4 Ystyriodd Bwrdd Cyngor Sir Powys y cynrychioliadau a'r argymhellion a dderbyniwyd ynghylch ei Gynigion Drafft mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2006 a 1 Awst 2006. Yn ei ystyriaethau, mae'r Bwrdd wedi cadw'r anghenion deddfwriaethol mewn cof y mae Adolygiad Cymunedol yn gweithredu'n unol â hwy ynghyd â'r polisiâu cyffredinol a oedd yn sail i'w Gynigion Drafft. Yn ei holl ymdrechion, mae Bwrdd Cyngor Sir Powys wedi bod yn awyddus i fod yn deg ac yn gyfiawn, nid yn unig er mwyn cymunedau'r Sir, eu hetholwyr a'u cynghorau cyfredol, ond hefyd er mwyn etholwyr ledled y Sir yn gyfan gwbl.

1.5 Mabwysiadodd Bwrdd Cyngor Sir Powys ei Gynigion Terfynol yn ei gyfarfod ar 1 Awst 2006, ac unwaith eto cyhoeddwyd y rhain a'u dosbarthu yn yr un modd ag y nodwyd uchod ychydig wedi hynny. Mabwysiadwyd y Cynigion Terfynol hyn yn ffurfiol gan Gyngor Sir Powys yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2006, yn amodol ar yr un addasiad sy'n effeithio ar gymunedau Llanfair-ym-Muallt a Duhonwy.

2 Argymhellion ynghylch Ardaloedd Cymunedol Powys

2.1 Mae Cynigion Terfynol y Cyngor yn argymhell nifer fach o newidiadau ardal rhwng cymunedau ledled y Sir. Rydym yn gwneud y cynigion hyn oherwydd ein bod ni'n ystyried eu bod yn bodloni'r prawf a nodir yn y Ddeddf: eu bod yn "ddymunol yng nghydestun llywodraeth leol effeithiol a hwylus". Yn gryno, ac yn ôl ardal Sirol, mae ein newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Sir Frycheiniog

2.2 Aberhonddu – trosglwyddo ardal sy'n cynnwys Marchnad Wartheg Aberhonddu a Ffrwdgrech o gymuned Glyn Tarell

O gychwyn yr Adolygiad hwn, nododd Cyngor Sir Powys mai "un o'i amcanion... yw sicrhau bod y ffiniau aneddiad fel y'u diffinnir yn y Cynlluniau Datblygu Unedol o fewn y ffiniau cymunedol ac yn parhau felly am y dyfodol agos". Aethom ati i edrych yn ofalus ar drefi'r Sir, a geir yn aml o fewn ardaloedd daearyddol bach, i sicrhau nad oedd ffiniau anheddiad yn croesi ffiniau cymunedol. Yn Aberhonddu, darganfuom fod y Farchnad Wartheg newydd eisoes wedi'i lleoli tu allan i'r ffin gymunedol ac mae'r ystâd ddiwydiannol yn Ffrwdgrech yn cyffwrdd â'r ffin. Mae ein Cynigion Terfynol yn argymhell y dylid gwneud addasiad bach i'r ffin, na fydd yn effeithio ar unrhyw etholwyr, sy'n trosglwyddo rhan fach o gymuned Glyn Tarell i gymuned Aberhonddu. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn erbyn ein Cynigion Drafft na Therfynol ar gyfer y newid hwn.

2.3 Crughywel – trosglwyddo'r ardal wrth safle ffatri Elvicta, gweithfeydd carthffosiaeth a maes chwarae'r dref o gymuned Dyffryn Grwyne

Yng Nghrucywel argymhellom drosglwyddo ardal sy'n cynnwys safle ffatri Elvicta, fferm garthffosiaeth y dref a maes chwarae'r dref o gymuned bresennol Dyffryn Grwyne i gymuned Crughywel. Er nad oedd y Cynnig Drafft hwn yn golygu trosglwyddo unrhyw eiddo preswyl, ystyrion y byddai'n rhoi rhan i Gyngor Tref Crughywel mewn cyfleusterau â pherthynas agos i'r dref, ac yn sicrhau bod y ffin anheddiad gyfredol yn gorwedd ymhell o fewn y ffin gymunedol. Cyflwynwyd cynrychioliadau yn erbyn y cynnig hwn gan Gyngor Cymuned Dyffryn Grwyne. Fodd bynnag, ystyriom fod ein hargymhellion yn y cyd-destun hwn dal yn ddilys; byddai ein ffin arfaethedig newydd yn sefyll mewn ardal gefn gwlad agored rhwng yr hyn y gellir ei ystyried yn dref Crughywel a'r datblygiad cyntaf yng

Nghwrt-y-gollen yng nghymuned Dyffryn Grwyne. Dosbarthwyd **Map** yn dangos ein cynigion i grwpiau â diddordeb ac mae ynghlwm wrth Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

2.4 Duhonwy – addasiad i'r ffin gymunedol â Chymuned Llanfair-ym-Muallt yn Newry Road

Wrth ddeheuol Llanfair-ym-Muallt, ar hyd Newry Road, darganfuom fod eiddo sy'n agos i ffin anheddiad y dref sydd ar hyn o bryd yng nghymuned Duhonwy, ac mae yna eiddo sydd mewn ardaloedd cefn gwlad agored i'r de sydd ar hyn o bryd yn rhan o gymuned Llanfair-ym-Muallt. Ystyriom y gellid creu ffin fwy priodol yma a dyna a gynigiom yn ein Cynigion Drafft. Er na dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn erbyn ein cynigion yn ystod ein cyfnod ymgynghori, yn y bwlch cyn cyfarfod ein Cyngor ar 26 Hydref 2006, derbyniwyd nifer o gynrychioliadau oddi wrth gynghorau cymuned cyfredol ac wrth gynghorwyr cymuned yr ardal yn ein hysbysu nad oedd gan ein cynigion ar gyfer newid yma gefnogaeth leol ac y dylid eu gollwng. Fodd bynnag, tynnwyd ein sylw at un eithriad. Lleolir eiddo Erwhelm ar hyn o bryd yng nghymuned Llanfair-ym-Muallt; mae ei drigolion ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys ar gam ar gofrestr etholiadol cymuned Duhonwy; mae ei drigolion yn cymryd rhan ym mywyd cymdeithasol cymuned Duhonwy, ac felly daeth yr ymgynghorwyr i'r casgliad y dylai'r eiddo hwn gael ei drosglwyddo'n ffurfiol i gymuned Duhonwy.

2.4 Y Gelli Gandryll – trosglwyddo'r rhan honno o gymuned Llanigon sy'n cyffwrdd â ffin orllewinol y dref yn Fferm Gipsy Castle

Yn Y Gelli Gandryll mae'r ffin anheddiad nawr yn cyffwrdd â'r ffin gymunedol yn Fferm Gipsy Castle, ac ystyriom hwn y byddai'n briodol defnyddio'r cyfle a ddaw o ganlyniad i'r adolygiad cyfredol yn y lleoliad i wneud addasiad bach i'r ffin gymunedol â chymuned Llanigon. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'r ffin anheddiad â'r Gelli Gandryll ymhell o fewn y ffin gymunedol am y dyfodol agos. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio argymhellion ein Cynigion Drafft ar gyfer y newid hwn. Dosbarthwyd **Map** yn dangos ein cynigion i'r rhai hynny a fynegodd diddordeb ac fe'i hatodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

2.5 Llanfrynach – trosglwyddo eiddo a adwaenir yn The Held o gymuned Glyn Tarell

Ar gyfer cymuned Llanfrynach, derbyniom lawer o gynrychioliadau yn ein perswadio bod yna 'gymuned naturiol' yng Nghantref - rhan bendant o gymuned Llanfrynach - y mae'n briodol cadw ward ar wahân ar ei chyfer o fewn cymuned Llanfrynach. Yn ein Cynigion Terfynol ar gyfer y gymuned honno rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau'r 'gymuned naturiol' drwy addasu ac ehangu ffiniau'r ward o fewn y gymuned a thrwy argymhell bod annedd a adwaenir yn The Held yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanfrynach o gymuned Glyn Tarell. Mae The Held yn gorwedd mewn elin o gymuned Glyn Tarell; ein hargymhelliad yw mai The Held yw'r unig eiddo a ddylai gael ei drosglwyddo i gymuned Llanfrynach. Atodir **Map** yn dangos ein cynigion yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

2.6 Tawe-Uchaf – trosglwyddo ardal sy'n cynnwys Tonyfildre, Cefnwaunynog a Nant-y-fedwen o gymuned Ystradfellte

Gofynnodd Cyngor Cymuned Tawe-Uchaf am addasu ei ffin ddwyreiniol â Chymuned Ystradfellte i gynnwys ffermydd Tonyfildre, Cefnwaunynog a Nant-y-fedwen. Ystyriom fod y cais hwn yn ddilys i raddau; awgryma daearyddiaeth a safle ffyrdd lleol fod gan y tair annedd berthynas agosach ag anheddiad Coelbren na Phontneddfechan. Ystyriom mai'r ffin ddwyreiniol briodol ar gyfer cymuned Tawe-Uchaf fyddai Nant y Moel. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft am y newid hwn.

Sir Drefaldwyn**2.7 Castell Caereinion – trosglwyddo eiddo yn Lôn Fronhaul o gymuned Llanfair Caereinion**

Gofynnodd Cyngor Cymuned Castell Caereinion i eiddo ar hyd Lôn Fronhaul gael eu trosglwyddo i'w cymuned hwy o gymuned Llanfair Caereinion oherwydd eu bod yn edrych at bentref Castell Caereinion am eu gwasanaethau lleol cychwynnol ac oherwydd nad yw'r lôn yn arwain yn uniongyrchol i Lanfair Caereinion, ac fe argymhellom ni hynny. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft am y newid hwn. Cynigiwn felly drosglwyddo'r eiddo canlynol: Tanycoed, Tynewydd, The Grange, Glynhdog, The Ochr a Ty'n y Byrwydd, a dylai'r ffin newydd rhwng y ddwy gymuned ddilyn ffiniau nentydd a chaeau yn yr ardal hon.

2.8 Ceri – trosglwyddo Lower House, Sarn o gymuned Yr Ystog

Gofynnodd trigolion Lower House, Sarn i'w heiddo gael ei drosglwyddo i ward Sarn cymuned Ceri o gymuned Yr Ystog oherwydd eu bod yn troi i'r anheddiad allweddol Sarn am eu gwasanaethau lleol cychwynnol, ac fe gynigion ni hynny. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft am y newid hwn.

2.9 Llandysul – trosglwyddo'r rhan honno o bentref bach Aberbechan sydd ar hyn o bryd yng nghymuned Y Drenewydd a Llanllwchaearn

Yn Aberbechan darganfuom fod y pentref bach (a ddyndwyd felly gan ein Cynllun Datblygu Unedol) wedi'i rannu rhwng cymunedau presennol Llandysul a'r Drenewydd a Llanllwchaearn. Argymhellom drosglwyddo'r pentref bach cyfan i gymuned arfaethedig Aber-miwl a Llandysul oherwydd ystyriom fod yr ardal hon yn wledig o ran ei chymeriad ac yn dibynnu ar Aber-miwl yn y lle cyntaf. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein cynigion Drafft am newid hwn. Byddai'r eiddo canlynol yn dod o dan ein hargymhellion ar gyfer trosglwyddo i'n cymuned arfaethedig yn Aber-miwl a Llandysul: Ponbechan (chwe phreswylfa), Glen Coe, The Swallows a Tynllwyn.

2.10 Llangedwyn - trosglwyddo'r rhan o anheddiad Pen-y-bont Llannerch Emrys sydd ar hyn o bryd yng nghymuned Llansanffraid

Ym mhentref bach Pen-y-bont Llannerch Emrys darganfuom fod gan rai eiddo sydd, er eu bod tu allan i ffin anheddiad y pentref bach, gyswllt agos â'r anheddiad. Cynigiwn felly wneud newid bach i'r ffin gyfredol rhwng cymunedau presennol Llangedwyn a Llansanffraid. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft ar gyfer y newid hwn. Ein hargymhelliad ni yw bod y ffin gymunedol newydd yn dilyn trywydd yr hen linell reilffordd o ger Penisarmynydd i Neuadd Pen-y-bont. Yr eiddo a fyddai'n cael eu derbyn i gymuned Llangedwyn yw Old New Inn ac 1 a 2 Bythynnod Old New Inn. Ni ystyriom y dylai ffin gymunedol Llangedwyn gael ei estyn ymhellach i'r de tuag at Benygroes; mae hon yn ardal yr ystyriwn ei bod bob amser wedi edrych ar anheddiad allweddol Llansanffraid-ym-Mechain am ei wasanaethau a'i gyfleusterau.

2.11 Llanidloes – trosglwyddo'r rhan honno o safle cyflogaeth gyffredinol Parc Hafren sydd ar hyn o bryd yng nghymuned Llangurig

Yn ardal ganolog Llanidloes, darganfuom fod safle cyflogaeth Parc Hafren wedi'i rannu rhwng cymunedau Llanidloes a Llangurig. Ystyriom y byddai'n fwy priodol pe bai ardal gyfan y safle hwn o fewn yr ardal ganolog ac argymhellom newid bach i'r ffin gymunedol yn y lleoliad hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein hargymhellion am ein Cynigion Drafft am y newid hwn.

2.12 Llanrhaeadr-ym-Mochnant - cyfuno cymunedau cyfredol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn-ddosbarth Glyndŵr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn-ddosbarth Trefaldwyn) i ffurfio un gymuned newydd

Y newid ardal mwyaf rydym yn ei argymhell yn y Sir yw cyfuno dwy gymuned bresennol Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn-ddosbarth Glyndŵr) a Llanrhaeadr-ym-Mochnant (yng nghyn-ddosbarth Sir Drefaldwyn). Mae'r trefniadau presennol yn codi o ddamweiniau a thynghedau hanes; mae'n rhannu pentref mawr Llanrhaeadr-ym-Mochnant, ac argymhellwyd cyfuno'r ddwy gymuned yn Adolygiad Dosbarth Glyndŵr 1985 ac Adolygiad Dosbarth Sir Drefaldwyn 1986. Gwnaethom ein hargymhellion oherwydd ein bod ni'n ystyried bod y ddatl dros un gymuned yn yr achos hwn yn ddiamau ac wedi bod felly ers amser hir. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau ynghylch ein Cynigion Drafft am y newid arfaethedig hwn.

2.13 Trefaldwyn – trosglwyddo ardal Weston Madoc o ardal Yr Ystog

Yn Nhrefaldwyn argymhellwn drosglwyddo ardal Weston Madoc, sydd ar hyn o bryd yn rhan ddatgysylltiedig o gymuned Yr Ystog, o'r gymuned honno i gymuned Trefaldwyn. Ystyriwn fod cysylltiad trigolion yr ardal hon yn y lle cyntaf â hen dref Trefaldwyn, sydd â gwell ystod o wasanaethau a chyfleusterau lleol ac sy'n agosach i bron pob un o'r trigolion. Nodom fod dau o'r cynghorwyr tref cyfredol yn byw yn yr ardal hon tra nad yw'r un o gynghorwyr Yr Ystog yn byw yma, felly i bob pwrpas mae eisoes yn cael ei chynrychioli ar Gyngor Tref Trefaldwyn. Mae rhyw dri deg annedd yn yr ardal. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft am y newid hwn.

Sir Faesyfed

2.14 Llanddewi-yn-hwytyn – trosglwyddo anheddiad cyfan di-ddosbarth Rhos y Meirch o gymuned Trefyclo

Rhwng cymunedau presennol Llanddewi-yn-hwytyn a Tref-y-clawdd, darganfuom fod anheddiad bach a di-ddosbarth Rhos y Meirch wedi'i rhannu gan y ffin gymunedol. Yn yr achos hwn, ystyriom y byddai'n briodol defnyddio'r cyfle a geir o ganlyniad i'r adolygiad cyfredol i wneud addasiad bach i'r ffin gymunedol yma er mwyn trosglwyddo'r anheddiad bach hwn yn gyfan gwbl i gymuned fwy gwledig Llanddewi-yn-hwytyn, a dyna a argymhellwn ni. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychioliadau yn herio ein Cynigion Drafft am y newid hwn. Byddai ein hargymhellion yn effeithio ar ryw wyth eiddo. Byddai ein ffin gymunedol arfaethedig yn ymadael â'r ffynnon ym mhant Gwernaffel, i'r gogledd o fferm Meadow View, yn croesi ffiniau caeau i Glawdd Offa gan ei ddilyn tua'r de i ymuno â'r B4355 i'r gogledd o The Firs cyn ail-ymuno â Chlawdd Offa a'r ffin bresennol. Argymhellom fod y ffin newydd hon yn haws i'w deall gan etholwyr yr ardal hon ac yn fwy perthnasol iddynt.

3 Materion Ffiniau Sirol

3.1 Tal-y-bont ar Wysg – trosglwyddo ardal ym Mhontsticill i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Yn ein Dogfen Arfer a Pholisi nodom nad oeddem wedi rhagweld unrhyw faterion yn codi yng nghyd-destun ein Ffiniau Sirol gydag awdurdodau cyfagos yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth baratoi ein Cynigion Drafft, ystyriom anheddiad ail haen Pontsticill, y mae rhan fach ohono, sy'n cynnwys pum eiddo preswyl a deg etholwr, wedi'i lleoli yn Nhal-y-bont ar Wysg. Saif tua naw milltir ar hyd ffordd wledig gul, ddi-ddosbarth o Dal-y-bont ond llai na thair milltir o ganol Merthyr Tudful. Daethom i'r casgliad na fyddai o fudd i lywodraeth leol effeithiol a hwylus i anheddiad gael ei rannu yn y fath fodd, a chynigiwn y dylid addasu'r ffiniau cymunedol a sirol i sicrhau bod Pontsticill yn cael ei gynnwys o fewn Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Fodd bynnag, nodom ein barn y dylai ardal Dol-y-gaer a Neuadd Uchaf, i'r gogledd o Gronfa Ddŵr Pontsticill, ac unrhyw eiddo a ffermydd eraill mwy gwledig i'r gogledd o aneddiad Pontsticill aros yng nghymuned Tal-y-bont ar Wysg a Phowys oherwydd bod y patrymau tirwedd ac anheddiad yn ymdebygu'n fwy i gymunedau ardal Bannau Brycheiniog yn y Sir hon. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cefnogi ein cynnig, er ei fod wedi awgrymu hefyd y dylid ystyried trosglwyddo eiddo i'r gogledd o'r gronfa ddŵr, gan gynnwys Dol-y-gaer. Mae Cyngor Sir Powys wedi mynegi ei farn ar y mater hwn yn glir, a bydd rhaid i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ystyried y mater hwn mewn adolygiad o'r ffin sirol yn y lleoliad hwn. Yr eiddo yr ystyria Cyngor Sir Powys yn briodol eu trosglwyddo o Fwrdeistref Merthyr Tudful yw Pant Station, Station House, Treatment Works, Tŷ Gronfa, Pleasant View Cottage, Tyle'r Bont a Tyle'r Bont Barn, fel a ddangosir ar y map atodedig yn Atodiad 4.

4. Materion Ôl-ddilynol

4.1 Mewn dwy ardal bydd ein hargymhellion yn cael effaith arwyddocaol ar ffiniau adrannau etholiadol Cyngor Sir Powys: tref Aberhonddu a Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru sy'n gyfrifol am argymhell i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud y gorchmynion angenrheidiol, yn gyntaf er mwyn addasu ffiniau sirol ac wedi hynny am ddiwygio adrannau etholiadol yn y Sir. Penderfynodd Cyngor Sir Powys gynghori'r Comisiwn ar ffurf y gorchmynion dilynol i ddiwygio trefniadau etholiadol y Sir nes bod adolygiad arfaethedig y Comisiwn o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Powys wedi'i gwblhau. Nodwyd na fydd yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai 2008. Gan hynny, ein hargymhelliad cychwynnol ar gyfer etholiadau mis Mai 2008 a hyd at gwblhau adolygiad y Comisiwn, yw y byddai'n fwyaf priodol creu cyswllt rhwng cymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant â chymunedau Llansilin a Llangedwyn at ddibenion cynrychiolaeth ar Gyngor Sir Powys. Yn Aberhonddu, ein hargymhelliad yw y dylai Adran Etholiadol St John Cyngor Sir Powys, gynnwys wardiau Dwyrain St John a Gorllewin St John yng nghymuned Aberhonddu, gan barhau â'r trefniadau cyfredol i etholwyr yr ardal honno yn ymarferol.

Tabl – Argymhellion Cyngor Sir Powys ar gyfer materion ôl-ddilynol

Adrannau Sirol	Yn cynnwys	Etholwyr (2005)
St John	Wardiau Dwyrain St John a Gorllewin St John Cymuned Aberhonddu	2525
Llanwddyn (gynt yn rhan o adran Llanrhaeadr-ym-Mochnant)	Cymunedau Llangynog, Llanwddyn a Phen-y-bont-fawr	836
Llanrhaeadr ym Mochnant / Llansilin	Cymunedau Llangedwyn a Llansilin a Chymuned newydd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	1770